

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd yn Swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Y Pafiliynau, Cwm Clydach ddydd Iau, 2 Tachwedd 2017 am 5.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol G Caple – yn y Gadair

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol

D. Grehan	G. Hughes	D. Williams
L. Hopper	P. Jarman	J. Williams

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr S. Gale – Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio
Mr S. Humphreys – Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol – Cynllunio a'r Amgylchedd
Mr C. Jones – Rheolwr Gwasanaethau Datblygu
Mr S. Zeinali – Rheolwr Datblygu Priffyrdd a Mabwysiadu Priffyrdd

82. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafodd ymddiheuriad dros absenoldeb ei dderbyn gan y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol S. Rees, J. Bonetto, A. Davies-Jones ac S. Powell.

83. DATGAN BUDDIANT

PENDERFYNWYD – yn unol â Chod Ymddygiad Aelodau, nad oedd unrhyw fuddiannau personol wedi'u gwneud yn y cyfarfod mewn perthynas â'r agenda.

84. DEDDF HAWLIAU DYNOL A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

PENDERFYNWYD – nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar

Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

85. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

PENDERFYNWYD – nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

86. NEWID I DREFN YR AGENDA

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei hystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

87. COFNODION

PENDERFYNWYD - cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu, a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2017, yn rhai cywir.

88. CEISIADAU SYDD WEDI'U HARGYMELL AR GYFER EU CYMERADWYO YN YMWNEUD Â SIARADWYR CYHOEDDUS

(1) Cais Rhif: 17/0822 - Newid defnydd o Siop Asiant Tai A2 i Gaffi A3, Lloyd Taylor Simpson, 66 Park Street, Trefforest, Pontypridd.

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Miss K. Jollans (Ymgeisydd). Cafodd hi bum munud i roi ei barn ar y cais uchod.

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Datblygu amlinelliad o'r cais i'r Pwyllgor ac ar ôl ystyried y mater, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio, ar yr amod y caiff Amod Rhif 3 ei ddileu, am ei fod yn ddiangen.

89. CEISIADAU SYDD WEDI'U HARGYMELL AR GYFER EU GWRTHOD YN YMWNEUD Â SIARADWYR CYHOEDDUS

(1) Cais Rhif: 17/0785 - Anedd deulawr ar wahân sy'n cynnwys garej ar wahan a man troi (Cais wedi'i ailgyflwyno) (Derbyniwyd y Cynllun Lleoliad Safle Diwygiedig a'r wybodaeth ategol ar 16/08/17), tu ôl i 132 Bute Street, Treherbert, Treorci.

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Ms N. Godsmark (Ymgeisydd). Cafodd hi bum munud i roi ei barn ar y cais uchod.

Siaradodd yr Aelod Lleol y Cynghorydd W. Jones - nad yw'n aelod o'r pwyllgor - o blaid y datblygiad arfaethedig.

Yn dilyn ystyried adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio, ynglŷn â'r cynnig uchod a gafodd ei argymhell i'w wrthod **PENDERFYNWYD** fod yr Aelodau o'r farn y dylen nhw gymeradwyo'r cynllun, yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio. Roedd yr Aelodau o'r farn y byddai modd goresgyn y gwrthwynebiad yn seiliedig ar briffyrdd drwy roi amod ar waith a fyddai'n atal y gwaith rhag mynd rhagddo nes i Orchymyn Rheoleiddio Traffig gael ei gyhoeddi i atal parcio a helpu pobl i weld yn well ar y gyffordd, yn ogystal ag amod sy'n gofyn am olau a gosod wyneb newydd ar y lôn fynediad. O ganlyniad i hyn, caiff y mater ei ohirio tan gyfarfod priodol nesaf y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu fel bod modd i'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio lunio adroddiad, mewn cydweithrediad â Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol y Fwrdeistref Sirol, ynglŷn â chryfderau a gwendidau unrhyw resymau cynllunio arfaethedig neu bosibl dros y penderfyniad yma, cyn y caiff penderfyniad ei wneud ar y mater.

90. CEISIADAU SYDD WEDI'U HARGYMELL AR GYFER EU CYMERADWYO

Lluniodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth fanylion o geisiadau a argymhellir ar gyfer eu cymeradwyo yn ei adroddiad a **PHENDERFYNWYD** -

(1) Cymeradwyo Cais Rhif 16/1151: Dymchwel adeiladau meithrin heb eu defnyddio er mwyn estyn maes parcio siop i gynnwys 34 o leoedd parcio ychwanegol (cyfanswm 114) (derbyniwyd cynllun trefn y safle wedi'i newid ar 26/09/17), Lidl Foodstore, Rhondda Road, Pontypridd yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau - Materion Cynllunio.

(2) Cymeradwyo Cais Rhif: 17/0102 - Adeiladu 3 tŷ â 3 ystafell wely (derbyniwyd y cynllun lleoliad safle diwygiedig gyda'r ffin llai ar 12/07/17) ar dir ym Mryngolau, Tonyrefail, Y Porth, yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau - Materion Cynllunio, ar yr amod y caiff Amod Rhif 8 ei ddileu, am ei fod yn ddiangen.

(3) Cymeradwyo Cais Rhif - 17/0753 - Tynnu adeilad presennol a chodi wal gynnal er mwyn estyn Canolfan Ailgylchu Dinas gyfagos, Ffald Cŵn Dinas, Cymmer Road, Dinas, Y Porth yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio.

(4) Cymeradwyo Cais Rhif 17/0923 - Newidiadau ac Estyniad arfaethedig i Ganolfan Gofal Oriau Dydd bresennol i fod yn Ganolfan/Hwb i'r gymuned. Gwaith i gynnwys gorchudd/cladin i'r wynebau allanol, newidiadau i'r maes parcio a thrin ffin. Newidiadau mewnol i gynnwys sefydlu Meddygfa, Meithrinfa Oriau Dydd, ac estyn strwythur i greu gofod/lle ychwanegol at ddefnydd Swyddfeydd D1 (derbyniwyd adroddiad cloddio 21/09/17), Canolfan Oriau Dydd y Santes Fair, Seymour Street, Aberdâr yn unol ag argymhellion y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio.

(Noder: Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Datblygu wybod i'r aelodau am lythyr hwyr a gafodd ei dderbyn gan yr Aelodau Lleol, y Cynghorwyr S. Bradwick ac M. Forey - nad ydynt yn aelodau o'r pwyllgor, yn cefnogi'r cais)

(5) Cymeradwyo Cais Rhif 17/0990: Newidiadau ac Estyniad arfaethedig i Ganolfan Gofal Oriau Dydd bresennol i fod yn Ganolfan/Hwb i'r gymuned. Gwaith i gynnwys gorchudd/cladin yn rhannol i'r wynebaw allanol, newidiadau i'r maes parcio a thrin ffin. Newidiadau mewnol i gynnwys sefydlu Meddygfa, Meithrinfa Oriau Dydd, ac estyn strwythur i greu gofod/lle ychwanegol at ddefnydd D1 at Ddefnydd Swyddfa. Trosi cyn-Fflat Gofalwr llawr cyntaf i ofod/lle at Ddefnydd Swyddfa D1 Atodol. (Cynllun B) (Derbyniwyd yr Adroddiad Cloddio Glo ar 21/09/17) Canolfan Oriau Dydd y Santes Fair, Seymour Street, Aberdâr yn unol ag argymhellion y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio.

(Noder: Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Datblygu wybod i'r aelodau am lythyr hwyr a gafodd ei dderbyn gan yr Aelodau Lleol, y Cynghorwyr S. Bradwick ac M. Forey - nad ydynt yn aelodau o'r pwyllgor, yn cefnogi'r cais)

91. CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU GWRTHOD

Yn ei adroddiad, roedd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio wedi nodi manylion ceisiadau a argymhellir ar gyfer eu cymeradwyo.

(1) Caiff Rhif: 17/0163 - Tŷ Anedd, tir cyfagos â Threlawney, Rhyd-Y-Nant, Pont-y-clun. Ar ôl ystyried y mater, PENDERFYNWYD fod yr aelodau o'r farn eu bod nhw am gymeradwyo'r cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio. Roedd hyn am eu bod nhw o'r farn fod Lefel Gorffenedig llawr gwaelod yr annedd arfaethedig yn uwch na'r nifer 1 o blith 100 arfaethedig - gyda newid hinsawdd yn ychwanegol - yn ogystal â'r 1 o blith 1000 o ran lefelau llifogydd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynghori fod hyn yn cydfynd â'r canllawiau a amlinellwyd yn A1.14 ac A1-15 o TAN 15, felly dyw'r datblygiad ddim yn mynd yn erbyn TAN 15 ac AW2 ac AW10 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf. O ganlyniad i hyn, caiff y mater ei ohirio tan gyfarfod priodol nesaf y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu fel bod modd i'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio lunio adroddiad, mewn cydweithrediad â Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol y Fwrdeistref Sirol, ynglŷn â chryfderau a gwendidau unrhyw resymau cynllunio arfaethedig neu bosibl dros y penderfyniad yma, cyn y caiff penderfyniad ei wneud ar y mater.

(Noder: Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Datblygu wybod i'r aelodau am lythyr hwyr a gafodd ei dderbyn gan Mr Smart (Ymgeisydd) yn gofyn a fyddai modd gohirio'r mater er mwyn iddo gael rhagor o amser i gyflwyno rhagor o dystiolaeth ynglŷn â llifogydd)

(2) Rhif Cais: 17/0538 - Cais amlinellol am ddatblygiad preswyl arfaethedig o 9 annedd, Hen Chwarel Bodwenarth, Bedw Road, Cilfynydd, Pontypridd. Ystyriodd y Pwyllgor y cais a **PHENDERFYNWYD** gwrthod y cais yn unol ag argymhellion Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio.

92 ADRODDIAD ER GWYBODAETH

PENDERFYNNODD yr Aelodau dderbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio – mewn perthynas â Phenderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a oedd wedi dod i law, Ceisiadau wedi eu Cymeradwyo a'u Gwrthod gyda rhesymau trwy'r drefn Penderfyniadau wedi'u Dirprwyo, Crynodeb o'r Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi trwy'r drefn Ddirprwyo ar gyfer y cyfnod 9 Hydref 2017 i 20 Hydref 2017.

**G. CAPLE
CADEIRYDD**

Daeth y cyfarfod i ben am 5:35pm.